Cofnodion **CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gyfrwng fideo gynadledda ac yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 20 Rhagfyr 2023, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms. S. Flemming, Mrs. J. Hughes, K.R. Jones, B. Mellor, Ms. R. Roberts, Miss S. Roberts, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd Mrs. E. Chard
Y Cynghorydd A. James (arsylwr)
Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen-James (arsylwr)

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Ms. H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 33. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Evans, S. Feeney a Mrs. D.L. King.

## 34. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth bob cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| RHESTR CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 34.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE**: 18 – 20 Stryd y Frenhines, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0756 |

| | |
|---|---|
| | **<u>DISGRIFIAD</u>:** Newid a gwneud addasiadau i lawr cyntaf ac ail lawr 18-20 Stryd y Frenhines i ffurfio 4 fflat hunangynhwysol, yn cynnwys ffurfio ac addasu ffenestri a gwaith cysylltiedig. Gwaredu'r grisiau dur sy'n bodoli eisoes i fflatiau yn 22-24 Stryd y Frenhines a gwaith cysylltiedig.<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Don Blears o'r cyfeiriad uchod.<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>****: Dim gwrthwynebiad.* |

**35. <u>YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO: CAULMERT LTD AR RAN CYMDEITHAS TAI CLWYD ALYN – CAIS CYNLLUNIO LLAWN I ADEILADU 32 ANNEDD (YN CYNNWYS TAI FFORDDIADWY), LLUNIO MYNEDFEYDD NEWYDD I GERBYDAU, MANNAU PARCIO, TIRLUNIO A GWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR YN RHODFA'R GORLLEWIN, RHODFA SYDENHAM a RHODFA SANDRINGHAM, Y RHYL, SIR DDINBYCH</u>**

**[Gwnaeth y Cynghorydd B. Mellor ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu yn y cais oherwydd fod y safle nesaf at fusnes aelod o'i deulu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar yr eitem hon.]**

Derbyniwyd yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio uchod a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *cynghori'r ymgeisydd y byddai'r Cyngor Tref yn dymuno gweld tai tref fforddiadwy gyda gerddi a man agored cymunedol (ardal chwarae) ar y safle.*

**36. <u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: …..20.12.2023………..